O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2024 Rhif 1057 (Cy. 176)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy a Chyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024

Gwnaed	*23 Hydref 2024*
Yn dod i rym	*3 Tachwedd 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy a Chyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2024 a daw i rym ar 3 Tachwedd 2024.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 3 Tachwedd 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" *("the trunk road")* yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Nid fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Hydref 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o brif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd

24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Abergele, Conwy hyd at ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Llanelwy, Sir Ddinbych.

Y darnau o ffyrdd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Cyffordd 25 (Bodelwyddan) a Chyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy).